Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Gareth Price

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Dogfennau atodol:

2 Papurau i'w nodi

Dogfennau atodol:

2.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch deiseb i ail-agor Gorsaf Carno

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-19-18(P1)

2.2 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch y Model Buddsoddi Cydfuddiannol

(Tudalen 3)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-19-18(P2)

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Dogfennau atodol:

4 Yr Ardoll Brentisiaethau - dilynol: Trafod yr adroddiad drafft

(09:30 - 10:00) (Tudalennau 4 - 36)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-19-18(P3) Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

5 Cyflwr Ffyrdd yng Nghymru: Trafod y cyflwyniadau a gafwyd ar gyfer y gystadleuaeth dynnu lluniau

(10:00 - 10:30)

Dogfennau atodol:

6 Gwerthu Cymru i'r Byd - Trafod yr adroddiad drafft

(10:30 - 11:00) (Tudalennau 37 - 76)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-19-18(P4) Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

7 Trawsnewidiad Digidol - Papur Cwmpasu

(11:00 - 11:15) (Tudalennau 77 - 80)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-19-18(P5) Papur Cwmpasu (Saesneg yn unig)

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/2392/18

Russell George AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@assembly.wales

06 Gorffennaf 2018

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mehefin mewn ymateb i lythyr y gwnaethoch ei dderbyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb i ailagor Gorsaf Carno.

Ein gweledigaeth yw gwella cysylltedd a chyfoethogi cymunedau drwy sicrhau gwell systemau trafnidiaeth. Ein nod ar hyn o bryd yw symud ymlaen â'n cynlluniau uchelgeisiol i ddiwygio seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar draws Cymru. Bydd y buddsoddiad arfaethedig gwerth £2 biliwn gan Keolis Amey yn cyfrannu'n fawr at gyflawni'r weledigaeth hon.

Ac eithrio Llinellau Craidd y Cymoedd a fydd yn trosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac y bydd Keolis Amey yn agor gorsafoedd newydd ar eu rhwydwaith, Llywodraeth y DU fydd yn parhau'n gyfrifol am weddill y seilwaith rheilffyrdd. Wedi dweud hynny, rydym yn parhau i ddatblygu achosion busnes ar gyfer prosiectau posibl a all ddenu buddsoddiadau i Gymru, ac yn ariannu rhaglen i wella seilwaith y rheilffyrdd er mwyn sicrhau mwy o wasanaethau trên gwell.

Rydym yn defnyddio ein pwerau a'n hadnoddau presennol er mwyn sicrhau bod gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru mewn gwell sefyllfa i elwa ar unrhyw gyfleoedd cyllid ar gyfer gorsafoedd a allai gael eu cynnig gan Lywodraeth y DU. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy roi sylw i'r gwaith paratoi sydd ei angen ar gyfer paratoi achos busnes cynnar ynghylch gorsafoedd newydd ar draws Cymru gan gynnwys Carno. Dylid nodi na all unrhyw gynnig lwyddo i sicrhau cyllid oni bai fod ganddo achos busnes cadarn.

Gall datblygu achos busnes cadarn i gefnogi cynnig ar gyfer gorsaf drên newydd fod yn llafurus ac yn ddrud. Yn sgil hynny, rydym wedi datblygu methodoleg i gyflymu'r gwaith datblygu angenrheidiol ac i ddatblygu rhestr o brosiectau. Felly, pan fydd Llywodraeth y DU

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn cynnig cyllid, bydd gan Gymru brosiectau ar gam datblygu priodol y gellir eu cyflwyno i'w hystyried, a byddai ganddynt well obaith o fod yn llwyddiannus. Rydym wedi comisiynu Trafnidiaeth Cymru i'n cynorthwyo â'r gwaith yma.

Yn gywir

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

4 Gorffennaf 2018

Annwyl Russell

Rwy'n ysgrifennu i gynnig sesiwn briffio technegol i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar y Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd.

Bydd y Model yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi dros £1bn mewn seilwaith cyhoeddus, yn ogystal â rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio cyllidebau cyfalaf. Bydd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyflawni ystod o amcanion polisi cyhoeddus ehangach.

Ar 20 Mehefin, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ynghylch hyrwyddo budd y cyhoedd drwy ddefnyddio'r Model hwn. Mae ar gael yn:

https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/publicinterestusingmim/?skip=1&lang=cy

Gan fod y pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i gyflwr ffyrdd yng Nghymru, a bod ganddo ddiddordeb ehangach yn y Model, byddwn yn falch iawn o gynnig cyfle i'r aelodau ddysgu mwy amdano mewn sesiwn briffio technegol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Os yw hyn o ddiddordeb i chi, a fyddai clercod eich pwyllgor gystal â chysylltu â'm swyddfa breifat i drefnu sesiwn?

Rwy'n ymestyn y gwahoddiad hwn i aelodau o'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn gywir,

Mark

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon